



ENTRE**COMP**EDU

Modiwl 4:Asesu

**Mynd yn Ddyfnach 4.3 Dathlu
cynnydd a chyflawniad**

Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Mynd yn Ddyfnach 4.3

Dathlu cynnydd a chyflawniad **Error! Bookmark not defined.**

Gweithgaredd: Pŵer eto **Error! Bookmark not defined.**

Gweithgaredd: Ydw i'n anghywir 7

Gweithgaredd: Enillion ymylol 9



Dathlu cynnydd a chyflawniad

Mae'r ffordd y mae athrawon yn ymdrin â chamgymeriadau myfyrwyr yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w llwyddiant. Canfu un astudiaeth enwog o wersi mathemateg fod athrawon yn Japan yn defnyddio camgymeriadau fel pwyntiau addysgu, tra roedd athrawon yn America yn tueddu i anwybyddu camgymeriadau.¹ Mae perfformiad myfyrwyr yn Japan yn parhau'n gyson well na pherfformiad myfyrwyr yn America. Roedd astudiaeth a gynhaliwyd yn Singapôr yn fwy diweddar yn gweld gwerth mewn 'methiant cynhyrchiol' pan oedd athrawon yn gadael i'r myfyrwyr 'roi cynnig arni' i ddechrau ac yna'n camu i mewn i helpu pan oedd y myfyrwyr yn methu datrys problemau. Yn yr hirdymor, roedd y myfyrwyr hyn yn cyflawni'n well na'r myfyrwyr hynny a gafodd gymorth gan athrawon yn ystod pob cam.² Felly, gan fod menter a chymryd risgiau yn elfennau pwysig yng nghyswllt entrepreneuriaeth, mae'n bwysig bod athrawon yn creu hinsawdd lle mae gwneud camgymeriadau'n cael ei ystyried yn gyfle i ddysgu. Ond y peth pwysig i'w gofio wrth groesawu camgymeriadau fel ffordd o ddysgu yw bod angen sicrhau bod myfyrwyr yn meithrin y gwytnwch emosiynol i allu ymateb yn hyblyg i gamgymeriadau.

Gellir dysgu gwersi o gysyniad Syr Dave Brailsford o enillion ymylol. Pan ddaeth yn gyfarwyddwr perfformiad British Cycling, canolbwyntiodd ar wella perfformiad trwy rannu'r amcan o ennill ras yn gamau llai. Credai y gallai gwelliant o 1% mewn amryw o feysydd arwain at enillion cronus sylweddol iawn. Er enghraifft, trwy arbrofi mewn twnnel gwynt gwelodd nad oedd y beic yn ddigon aerodynamig. Trwy ddadansoddi'r ardal beirianyddol yn nhryc y tîm, canfu fod llwch yn cronni ar y llawr, ac yn tansilio'r gwaith o gynnal a chadw'r beiciau. O ganlyniad, peintiwyd y llawr yn wyn fel bod modd gweld pob mymryn o lwch. Cyflwynodd gel llaw

1 Stevenson, H. and Stigler, J.W. (1994) Learning Gap: Why Our Schools are Failing And What We Can Learn From Japanese and Chinese Education. Simon and Schuster.

2 Kapur, M. and Bielaczyc, K. (2011) 'Designing for Productive Failure', Journal of the Learning Sciences, 21(1), 45-83.



gwrthfacterol i leihau heintiau. Roedd Brailsford yn gweld y manylion hyn yn gyfleoedd i wneud enillion ymylol, ac nid yn wendidau. Roedd gan y tîm dargedau clir a buont yn gweithio bob yn dipyn i'w cyflawni. Pan oedd Brailsford yn dechrau ar y gwaith, roedd pobl yn chwerthin ar ei ben. Ond ymhen ychydig flynyddoedd roedd Brailsford a Team Sky wedi ennill 16 o fedalau aur yn y Gemau Olympaidd ac wedi rhagori yn y Tour de France.³

Mae'r enghraifft hon yn dangos sut y gallech ddefnyddio 'meini prawf llwyddiant' (yr hyn y mae angen i fyfyrwyr ei wneud i gyflawni'r amcan) ac 'ysgolion sgiliau' (dangos mewn ffordd weledol ar ba ris y maent yn sefyll o ran eu cynnydd) gyda'r myfyrwyr er mwyn iddynt allu cofnodi eu cynnydd a sicrhau enillion bychain. Ystyriwch y cymhwysedd entrepreneuriaidd, cydweithio'n dda. Mae Claxton et al yn awgrymu tri cham yn y broses o ddatblygu ysgolion sgiliau ar gyfer cydweithredu.⁴

Cam 3 deall a gwella ymddygiadau arweinyddiaeth

Cam 2 deall a gwella ymddygiadau ar y cyd

Step 1 deall a gwella ymddygiadau gwaith grŵp unigol

Gallech gyfeirio at EntreComp er mwyn creu eich ysgolion sgiliau eich hun sy'n gysylltiedig â'r cymwyseddau a'r lefelau cynnydd perthnasol yr ydych am i'r myfyrwyr ganolbwyntio arnynt. Gellid addasu'r geiriad ar gyfer pob gris ar yr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn addas i oedran y myfyrwyr.

Dros nifer o flynyddoedd, mae ymchwil Carol Dweck i feddylfryd twf wedi dangos sut y gall myfyrwyr ymateb i gamgymeriadau a heriau mewn ffordd gadarnhaol, os yw athrawon yn dda am roi adborth a chefnogaeth. Gwelodd, er enghraifft, fod techneg syml o ddefnyddio'r geiriau 'eto' neu 'ddim eto' ('yet' neu 'not yet' yn

³ Syed, M. (2015) Black Box Thinking: The Surprising Truth About Success

⁴ Claxton, G. et al (2011) Building Learning Power, TLO, p.108.



Saesneg) yn cael dylanwad cadarnhaol ar fyfyrwyr a oedd yn credu na allent wneud rhywbeth.

Y peth pwysig yw meithrin hinsawdd lle nad yw myfyrwyr yn ofni gwneud camgymeriadau. Yn *How Children Fail*, mae John Holt, yr awdur Americanaidd, yn pwysleisio bod plant ifanc iawn yn dysgu rhoi'r atebion y maent yn credu y mae athrawon am eu clywed, a hynny mewn math o drip pysgota i geisio tynnu atebion.⁵ Maent yn dysgu ystyried camgymeriadau yn rhywbeth drwg. Ar y llaw arall, mae'r syniad o 'fethiant campus'⁶ yn yr ystyr entrepreneuriaidd yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol. Dyma pam mai un o'r heriau mwyaf wrth addysgu ac asesu cymwyseddau entrepreneuriaidd yw mynd i'r afael â'r berthynas iterus rhwng llwyddo a methu.

⁵ Ar gael yn: <http://www.schoolofeducators.com/wp-content/uploads/2011/12/HOW-CHILDREN-FAIL-JOHN-HOLT.pdf>

⁶ Mae Paul Iske, sylfaenydd yr Institute of Brilliant Failures, yn hybu gwell dealltwriaeth o gymhlethdod arloesi ac entrepreneuriaeth. Mae'n bosibl mai un o'r enghreifftiau mwyaf adnabyddus o fethiannau campus yw Viagra, y driniaeth lwyddiannus ar gyfer anhawster codiad, ond efallai nad yw'n enghraifft hawdd iawn i'w rhannu â'r myfyrwyr. <https://www.supplychainmovement.com/paul-iske-institute-brilliant-failures-speak-innowvate/>



Ac yn hanes dynoliaeth, mae rhai o'r datblygiadau a'r darganfyddiadau pwysicaf wedi digwydd yn ddamweiniol wrth i wyddonwyr oedi i edrych ar gangymeriadau yn hytrach na'u diystyru.⁷



Tasg Hyfforddi

Pwer eto

'The Power of Yet': Gwylwch y fideo *Sesame Street* hwn (sy'n seiliedig ar syniadau Dweck) sy'n cyfeirio at rym 'dim eto'. Mae'n fideo rydych yn siŵr o'i fwynhau os

⁷ Ar ddamwain y darganfuwyd tystiolaeth am darddiad y bydysawd hyd yn oed, a hynny ar ôl i wyddonwyr disglair anwybyddu eu hymateb cyntaf bod eu telesgop wedi torri. Johnson, S. (2010) *Where Good Ideas come from*, London: Penguin, p.139.



ydych yn dysgu plant ifanc (ond mae'n ddiddorol i unrhyw addysgwr!): <https://www.youtube.com/watch?v=XLeUvZvuvAs> (gosodiadau cyfieithu awtomatig ar gael) Sut y gellid cymhwysu hyn i annog eu hymdeimlad o antur?



Efallai y byddech hefyd yn hoffi gwyllo sgwrs TED wreiddiol Dweck ar rym 'dim eto'. Gallwch wneud hynny drwy fynd i <https://www.youtube.com/watch?v=J-swZaKNzlc>



Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 4.3.2

Gwrandewch ar eiriau'r gân 'Am I Wrong' gan Nico a Vinz. Pa neges y gallech ei chodi o'r gân ar gyfer y ffordd rydych yn asesu cymwyseddau entrepreneuraidd myfyrwyr?

Dolen i'r fideo YouTube: <https://www.youtube.com/watch?v=VBmEJZofz2s>



Geiriau'r gân:

Am I wrong for thinking out the box from where I stay?

Am I wrong for saying that I'll choose another way?

I ain't trying to do what everybody else doing

Just cause everybody doing what they all do

If one thing I know, how far would I grow?

I'm walking down this road of mine, this road that I call home

So am I wrong for thinking that we could be something for real?

Now am I wrong for trying to reach the things that I can't see?

But that's just how I feel, that's just how I feel

That's just how I feel trying to reach the things that I can't see

Am I tripping for having a vision?

My prediction, I'mma be on the top of the world

Hope you, hope you don't look back, always do what you decide

Don't let them control your life, that's just how I feel



*Fight for yours and don't let go, don't let them compare you, no
Don't worry, you're not alone, that's just how we feel*

*So am I wrong for thinking that we could be something for real?
Now am I wrong for trying to reach the things that I can't see?
But that's just how I feel, that's just how I feel
That's just how I feel trying to reach the things that I can't see*

*If you tell me I'm wrong, wrong
I don't wanna be right, right
If you tell me I'm wrong, wrong
I don't wanna be right*

*So am I wrong for thinking that we could be something for real?
Now am I wrong for trying to reach the things that I can't see?
But that's just how I feel, that's just how I feel
That's just how I feel trying to reach the things that I can't see*

Songwriters: Abdoulie Jallow / Nicolay Sereba / Vincent Dery / William Wiik Larsen



Gweithgaredd

Enillion ymylol

Sut allech chi ddefnyddio'r syniadau ynghylch 'enillion ymylol' yn eich asesiad eich hun?

